

JAMES, CHARLES (1820 - 1890?), cerddor

Enw: Charles James
Dyddiad geni: 1820
Dyddiad marw: 1890?
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cerddor
Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Perfformio
Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd yn Llanilar, Sir Aberteifi, 11 Gorffennaf 1820. Yr oedd ei dad yn arwain y canu yn yr eglwys, a chafodd y mab gyfle i ddatblygu ei ddawn fel cantor. Meddai lais da, a chynigiodd bonheddwr o Lundain gael lle iddo yng nghôr ei eglwys, ond gwrthododd ei rieni. Cafodd rai gwersi gan [Richard Mills](#), Llanidloes, pan oedd hwnnw ar ei deithiau trwy'r wlad, a chyhoeddodd ddwy dôn o'i waith yn *Caniadau Seion*, ac ymddangosodd tair arall yn yr *Arweinydd Cerddorol*. Yn y *Ceinion* ('[Hafrenydd](#)') ceir y dôn ' Llanilar ' ganddo, ac y mae ' Bwth fy Nhad ' yn *Y Cerddor Cymreig*, Rhif 36. Bu'n byw yn Llundain am flynyddoedd, a chafodd ei ddewis yn arweinydd i'r Gymdeithas Gerddorol Gymreig. Yn ei flynyddoedd olaf trigai yn yr Eglwys Newydd ger Caerdydd. Credir iddo farw yn 1890, gan na cheir ei enw yn *Directory* dref y flwyddyn honno.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20732697](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

